

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnoion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 13eg o Ionawr 2015.

1. Presennol: OP Huws (Cadair), Hefina M W Roberts, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Eurig W Evans – Nebo; Harry W Owen, Dafydd G Owen, Sharon W Jones – Talysarn; Barry Bracegirdle – Penygroes; Craig ab Iago – Cynghorydd Sir / **Ymddiheuriadau:** Iwan Lloyd Williams. Ers derbyn llythyr ymddiswyddiad T Les Jones, cadarnhawyd bod y rhybuddion perthnasol wedi eu arddangos yn y gymuned, a bod y Cyngor yn rhydd I gyfethol Cynghorydd newydd I'r sedd. Roedd hyn yn berthnasol hefyd I'r sedd wag ar ward Penygroes. Gofynwyd I'r Clerc ysgrifennu at Les I ddiolch iddo am ei wasanaeth ar y Cyngor, a'i fod wedi bod yn aelod gwerthfawr dros Nantlle. Fe hysbyswyd y Cynghorwyr fod y Clerc wedi derbyn nodyn gan y Cynghorydd Ifan Glyn Jones yn datgan ei fod wedi penderfynu ymddiswyddo o'r Cyngor oherwydd gwaeledd. Bydd yn rhaid cysylltu gyda'r Swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd er mwyn derbyn y rhybuddion I'w rhoi i fyny. Gofynwyd I'r Clerc ysgrifennu at Ifan hefyd yn diolch iddo am ei wasanaeth ar y Cyngor.

2. Ethol Cadeirydd/Cynghorwyr. Cyfethol: Rhoddwyd enw Justin Davies ymlaen I fod yn aelod dros Penygroes (HWO/SWJ) – pawb yn cytuno. Rhoddwyd enw Ffion Jones ymlaen I fod yn aelod dros Nantlle (DG/GR) – pawb yn cytuno. Felly cyfetholwyd y ddau yn aelodau newydd I'r Cyngor, a gofynwyd I'r Clerc gysylltu I'w hysbysu. Gan mai ar Benygroes mae'r swydd Cadeirydd yn disgyn, a fodd y swyddogaeth yma angen ei llenwi – Barry yn cynnig gofyn I Iwan fod yn Gadeirydd tan y cyfarfod blynyddol – Dafydd yn eilio.

3. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir. Gwyndaf yn datgan diddordeb (eitem 10) – Goleuadau Nadolig. Ni gymerodd y Cynghorydd sir unrhyw ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar geisiadau cynllunio.

4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Tachwedd. Harry Wyn Owen yn datgan cywirdeb y cofnodion, a Gwyndaf yn eilio.

5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion. Rhaid rhoi offer torri gwair y Cyngor allan I dendr am y pris gorau, ac felly penderfynwyd hysbysu fel eitem arbennig yn arwerthiant Bryncir. Parthed man wario ar waith ychwanegol achlysurol ar llwybrau/mynwentydd, rhoddwyd caniatad I'r is-bwyllgor gymeradwyo gwariant I fyny at £500 heb orfod mynd yn ol I'r pwyllgor llawn am gymeradwyaeth. Dafydd Glyn yn cynnig gofyn wrth ymgymerwr y tendr llwyddiannus faint y byddent yn ei godi yr awr os oes gwaith ychwanegol yn codi; Y Clerc I ysgrifennu at Twm I ofyn iddo am y strap cerrig beddi, ac iddo'w adael yn garej Povey efo Eurig; Cofeb y Chwaelwyr yn Eglwys Talysarn – gofynwyd I'r Cynghorwyr gael barn y trigolion am rywle arall I'w lleoli. Y Cyngor Cymuned yn fodlon symud y cerrig coffa (Dorothea) o'r Eglwys gan fod yr Eglwys yn cael ei gwerthu. Y Cyngor eisiau awgrymiadau gan drigolion y Dyffryn ar ble I'w ail-osod, ac I aelodau o'r cyhoedd gysylltu efo'r Clerc neu gyda'r Cynghorwyr efo'u awgrymiadau; Cysylltu efo Cyngor Gwynedd eto ynglyn a'r coed sy'n amharu a'r llinell ffon yn Trem yr Wyddfa; Cysylltu efo'r contractiwr I dario llwybrau mynwent Gorphwysfa (pris wedi ei gytuno mewn cyfarfod blaenorol).

6. Adrodd yn ol o unrhyw gyfarfod is-bwyllgor. Dim I'w adrodd.

7. Cynllunio. C14/1051/31/TR Ymgynghoriad ynghylch ail osod llinell drydan – Penygroes-Clynnog. C14/1224/22/LL – 2 Stad Tan y Coed, Penygroes – estyniad yn nhw blaen eiddo.

8. Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion – darllenwyd yr ymatebion I gyd – dim yn codi.

*Rhybudd Ymgynghoriad Cyhoeddus – Cynllun Drafft Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Drafft Canolbarth Cymru/Gogledd Cymru. Er gwybodaeth.

*Prisiau biniau masnachol. Y Clerc wedi holi am finiau I'r mynwentydd. Byddai'n rhaid I'r biniau gael eu symud allan ar gyfer eu gwagio. Pryder os y byddent yn cael llonydd.

*Cynllun llwybrau ardal Llanllyfni. Y rhestr ddiweddaraf o lwybrau'r Cyngor a'r categorïau gan Gyngor Gwynedd.

*Ymchwiliad Cyhoeddus Llwybr Dorothea – newid y weithdrefn ar gyfer dyfarnu. Er gwybodaeth.

*Gorchymyn Cyngor Gwynedd – gwaharddiad traffig dros dro, Ffordd yr Orsaf, Talysarn. Rhoddwyd yr wybodaeth I'r Cynghorwyr.

*Ymchwiliad cyhoeddus llwybrau Dorothea – rhybudd canslo. Y mater hwn wedi dod I ben.

*Praesept 2015-2106. Trafodwyd cyllid y Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn 2015-2016. Harry Wyn Owen a OP Huws yn cynnig fod y praesept yn aros yr un fath a'r flwyddyn ddiwethaf. Dafydd Glyn Owen a Barry Bracegirdle yn cynnig cynyddu'r praesept o £1500. Cafwyd pleidlais, a phenderfynwyd ychwanegu £1500 at y Praesept.

Aral

*SLCC – ar y bwrdd.

*Dyfarniad cyfogaau clerod. Dyfarniad cenedlaethol – y Clerc wedi gweithredu.

9. **Gwefan.** Cofnodion Tachwedd y Cyngor I fynd ar y wefan.

10. **Goleuadau Nadolig.** Dafydd Glyn a Harry Wyn am drafod os oes modd newid y ffordd mae'r Cyngor yn cael trydan I'r goleuadau Nadolig. Y Neuadd Goffa wedi cytuno mewn egwyddor I ddefnyddio trydan y Neuadd ar gyfer rhai o'r goleuadau, ond byddai angen trafod gyda busnesau Heol y Dwr/Stryd yr Wyddfa am y gweddill. Byddai newid tarddiad y cyflenwad trydan yn golygu na fyddai tal misol I'w dalu I Scottish Power.

11. **Materion Pentrefi.** Talysarn Bagiau llawn ar y llawr ger y biniau ailgylchu ar y maes parcio, a Cyngor Gwynedd ddim yn eu codi; Cae Dolbebi – bwllch yn wal y cae (wedi dod I lawr at y lon) – cysylltu efo Cyngor Gwynedd; Coed wedi disgyn ar llwybr Plas Du; Bin wrth y steshon byth wedi ei symud; Tipio slei bach wrth Gasworks Talysarn. Llanllyfni Holwyd Craig am y sefyllfa parcio yn Llanllyfni; Arwydd 'Give Way' ar ben Lon Ddwr wedi ei droi; Clo wedi mynd oddi ar bocsgraean yn Glan Aber. Nebo Gwair yn blocio gwteri – gofyn I'r Cyngor gymryd mwy o ofal wrth dorri gwair. Gofyn beth ydy rota'r glanhawr stryd yn Llanllyfni. Penygroes Tyllau ar gylchfan Poveys; Beth ydy'r marciau ar lon Stryd yr Wyddfa? Twll yn cychwyn ar y ffordd ar sgwar Penygroes wrth y manol. Nantlle Trigolion y pentref yn gofyn am fin.

12. **Llwybrau a Mynwentydd.** Angen gwagio corlenni mynwentydd – trefnu. Derbyniwyd prisiau Cyngor Gwynedd am finiau masnachol; Rhestr o lwybrau'r Cyngor Cymuned ar y wefan. OP yn cynnig bod y Cyngor Cymuned yn adolygu'r categorïau, yn fewnol, bob blwyddyn. Hefina wedi derbyn cwyn am 'pothole' yn St Rhedyw. Harry a Hefina am fynd yno I edrych.

13. **Materion yn ymwedd a'r heddlu.** Tri o lafnau wedi eu gweld yn eistedd ar ben y lloches bws ym Mhenygroes, ac yn trio cicio'r cerrig I ffwrdd.

14. **Materion ariannol.**

***Taenlen i'w chymeradwyo.**

***Biliau i'w talu** – A Johnson ffon/rhyngwrwyd £25; A Johnson – derbynebaw. Caernarfon and Denbigh Herald – tendr - £148.50; Iwan Lloyd Williams – coeden nadolig £45.60; Capel Soar – cyfarfodydd. Gwynedd Fire – goleuadau nadolig £1680.00.

***Ceisiadau am Arian – Eisteddfod yr Urdd, Theatr Bara Caws, Dawns I Bawb.** Trafod fis nesaf.